Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Iechyd Rhyngwladol
International Health

# Adroddiad Sganio Gorwelion Rhyngwladol a Dysgu

## Calendr Cryno

## Ebrill 2023 i Fawrth 2024

Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant

World Health Organization Collaborating Centre on Investment for Health and Well-being

## Gwybodaeth Gefndir

Mae pandemig COVID-19 wedi arwain at heriau digynsail i systemau iechyd, yn ogystal ag effeithiau llesiant, cymdeithasol ac economaidd hirdymor ar gymdeithasau. Mae iechyd a llesiant y boblogaeth wedi cael eu heffeithio ymhellach gan bryderon iechyd y cyhoedd diweddar, megis yr argyfwng costau byw. Er mwyn deall, lliniaru a mynd i'r afael â'r materion hyn, mae gweithgarwch iechyd y cyhoedd cydlynol, gydweithredol a seiliedig ar dystiolaeth wedi bod yn hanfodol ar draws pob lefel lywodraethu, sector a rhanddeiliaid, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Roedd dysgu parhaus ac amserol o brofiad gwledydd eraill a'r dystiolaeth a'r arweiniad sy'n dod i'r amlwg, a ddarperir gan sefydliadau rhyngwladol allweddol, yn hanfodol i lywio camau gweithredu, dulliau gweithredu a phrosesau gwneud penderfyniadau o'r fath yng Nghymru.

## Sganio Gorwelion Rhyngwladol a Dysgu

Cychwynnwyd y ffrwd waith Sganio Gorwelion Rhyngwladol a Dysgu gan y Ganolfan Gydweithredol ar Fuddsoddiad mewn Iechyd a Llesiant Sefydliad Iechyd y Byd (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel PIH WHO CC) yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, i lywio'r ymateb iechyd y cyhoedd ac adfer o ran COVID-19 yng Nghymru. I ddechrau, canolbwyntiodd y ffrwd waith yn bennaf ar dystiolaeth ryngwladol COVID-19, profiad, mesurau yn ogystal â dulliau pontio ac adfer; ac archwiliodd atebion a mesurau i liniaru a lleihau niwed o'r effeithiau iechyd, llesiant, cymdeithasol ac economaidd oedd yn dod i'r amlwg.

Yng ngwanwyn 2022, ehangwyd cwmpas yr adroddiadau i gwmpasu pynciau iechyd y cyhoedd â blaenoriaeth a rhai oedd yn dod i'r amlwg, gan gynnwys ym meysydd gwella a hybu iechyd, diogelu iechyd, a gofal iechyd. Gan gefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), mae'r llif gwaith yw cyfrannu at Gymru iachach, mwy cyfartal, cydnerth, llewyrchus sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Mae'r holl Adroddiadau Sganio Gorwelion Rhyngwladol a Dysgu ar gael yma: Sganio Gorwelion Rhyngwladol - Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant (phwwhocc.co.uk)

## Methodoleg

Mae'r adroddiadau Sganio Gorwelion Rhyngwladol yn cyfosod data, tystiolaeth a dysgu empirig gan sefydliadau allweddol, ymchwil a gwledydd perthnasol. Mae'r adroddiadau yn cynnwys amrywiaeth o ffynonellau data gan gynnwys llenyddiaeth wyddonol, gohebiaeth y llywodraeth ac adroddiadau a dadansoddiadau sefydliadau anllywodraethol. Mae'r dull methodolegol yn cynnwys proses dri cham sy'n cynnwys adolygiad cwmpasu, cyfosod tystiolaeth, a golygu terfynol. Nod y dull systematig hwn yw darparu gwybodaeth ddeinamig a chyfredol y gellir gweithredu arni a chyfleu canfyddiadau allweddol i lunwyr penderfyniadau a llunwyr polisi mewn ffordd hawdd ei deall a chlir.

# Cynnwys


**Adroddiad 44**
Mehefin 2023

**Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd**
Golwg ar wlad: **Brasil • Y Ffindir**

**Adroddiad 45**
Gorffennaf 2023

**Iechyd a Llesiant Meddwl Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches**
Golwg ar wlad: **Gweriniaeth Iwerddon • Yr Almaen**

**Adroddiad 46**
Medi 2023

**Pum Amod Hanfodol ar gyfer Tegwch Iechyd**
Golwg ar wlad: **Seland Newydd • Canada**

**Adroddiad 47**
Rhagfyr 2023

**Gwreiddio Atal mewn Gofal Sylfaenol a Chymunedol**
Golwg ar wlad: **Brasil • Slofenia**

**Adroddiad 48**
Chwefror 2024

**Effaith Tlodi ar Fabanod, Plant a Phobl Ifanc**
Golwg ar wlad: **Yr Alban • Slofenia**

# Nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL
WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS

## Cymru Lewyrchus

- Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd
- Pum Amod Hanfodol ar gyfer Tegwch Iechyd
- Effaith Tlodi ar Fabanod, Plant a Phobl Ifanc

## Cymru Gydnerth

- Pum Amod Hanfodol ar gyfer Tegwch Iechyd

## Cymru o Gymunedau Cydlynus

- Iechyd a Llesiant Meddwl Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches
- Pum Amod Hanfodol ar gyfer Tegwch Iechyd

## Cymru sy'n Gyfrifol ar lefel Fyd-eang

- Iechyd a Llesiant Meddwl Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches

## Cymru Fwy Cyfartal

- Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd
- Iechyd a Llesiant Meddwl Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches
- Pum Amod Hanfodol ar gyfer Tegwch Iechyd
- Gwreiddio Atal mewn Gofal Sylfaenol a Chymunedol
- Effaith Tlodi ar Fabanod, Plant a Phobl Ifanc

## Cymru Iachach

- Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd
- Iechyd a Llesiant Meddwl Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches
- Pum Amod Hanfodol ar gyfer Tegwch Iechyd
- Gwreiddio Atal mewn Gofal Sylfaenol a Chymunedol
- Effaith Tlodi ar Fabanod, Plant a Phobl Ifanc

Lawrlwytho'r adroddiad

## Canfyddiadau Allweddol

# Mewn ffocws: **Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd**

## Cyflwyniad

O dan raglenni prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd (PYDdPYC), mae pob plentyn oedran ysgol gynradd yn cael prydau ysgol heb unrhyw gost i deuluoedd, waeth beth fo'u statws economaidd-gymdeithasol.




Mae math a nifer y prydau a ddarperir yn amrywio rhwng gwledydd a rhaglenni.

Mae'n bwysig sicrhau bod darpariaeth PYDdPYC yn briodol, a bod plant yn bwyta prydau bwyd.

Mae plant sy'n gymwys i gael PYDd ar sail prawf modd yn fwy tebygol o fanteisio ar brydau ysgol o dan PYDdPYC, sy'n awgrymu bod darpariaeth ehangach yn lleihau stigma a rhwystrau eraill.

Nododd yr adolygiad cwmpasu polisi rhyngwladol enghreifftiau o bolisi ac arfer PYDdPYC; echdynnwyd dysgu o lenyddiaeth academaidd a llwyd a data ar fodelau cyflawni a chanlyniadau gan gynnwys iechyd, tegwch, cynaliadwyedd, a llesiant economaidd.

**"Offering free meals for all is an investment in equality and the future."** (Education Finland)

https://www.educationfinland.fi/school-meals/finnish-model

## Negeseuon Allweddol ac Effaith

Mae enillion economaidd, cymdeithasol, addysgol, iechyd ac amgylcheddol rhaglenni PYDdPYC yn cynnwys:

- Hyrwyddo diet maethlon, cytbwys ac arferion bwyta'n iach
- Helpu i leihau gordewdra, clefydau ac anabledd sy'n gysylltiedig â diet ymhlith plant ac oedolion
- Cefnogi twf a datblygiad plant o ran dysgu a sgiliau cymdeithasol ac emosiynol
- Gwella cyrhaeddiad addysgol, dysgu a pherfformiad ysgol a lleihau absenoldeb
- Cynyddu potensial enillion oes myfyrwyr, gwella cynhyrchiant a chyflogaeth
- Lleihau ansicrwydd bwyd, cydbwyso cyllidebau bwyd a lleddfu tlodi, yn enwedig ar gyfer teuluoedd incwm isel
- Cynyddu cyfranogiad rhieni yn y gweithle, yn enwedig i fenywod
- Effaith gadarnhaol ar gynaliadwyedd amgylcheddol a'r hinsawdd, a'r economi sylfaen, trwy hyrwyddo caffael lleol ac arferion cynhyrchu gwyrdd
- Hyrwyddo dinasyddiaeth weithredol, ymddiriedaeth a chyfranogiad wrth ddod â newid

Mae'r canlyniadau hyn yn darparu enillion i'r sector iechyd ac addysg ac yn gwella tegwch rhwng y rhywiau.

# Golwg ar wlad

## Brasil

Yr ail fwyaf o blith rhaglenni bwydo ysgol cyffredinol y byd (oddeutu 40 miliwn o blant mewn dros 60,000 o ysgolion ar draws 5,570 o fwrdeistrefi).

**40 miliwn o blant**

Mae'n blaenoriaethu caffael lleol, arferion cynaliadwy a lleihau gwastraff bwyd.

Mae'n ofynnol i ysgolion cyhoeddus wario >30% o'u cyllidebau prydau bwyd ar gynnyrch ffermwyr teuluol. Roedd hyn yn darparu sicrwydd bwyd a maeth i fyfyrwyr mewn cymunedau tlawd a hybu amaethyddiaeth leol, gan helpu yn agos at 4 miliwn o ffermwyr bach.

**4 miliwn o ffermwyr bach**

Defnyddir gerddi ysgol i dyfu cynnyrch ar dir gwag ac iardiau ysgol, gan hybu arferion bwyta'n iach, cynnyrch lleol a chynaliadwyedd Yn Sao Paulo, helpodd 'dinasoedd heb newyn' ddatblygu dros 40 o erddi ysgol, gan gyrraedd mwy na 14,500 o blant.

**40 o erddi ysgol**

## Y Ffindir

Mae gan bob plentyn rhwng 6-18 oed (850,000 o fyfyrwyr) hawl i ginio ysgol am ddim.

**850,000 plant**


Mae'r rhaglen yn gweithio i adeiladu tegwch rhwng plant o teuluo gefndiroedd gwahanol, gan gryfhau cyfleoedd cyfartal.

Mae Bwrdd Addysg Cenedlaethol y Ffindir yn argymell na ddylai melysion, diodydd llawn siwgr a diodydd egni fod ar gael yn rheolaidd mewn lleoliadau addysgol.

Dyfernir y "Diploma Cinio Ysgol" i ysgolion sy'n darparu cinio ysgol sy'n gynaliadwy o ran maeth, addysg ac ecoleg.

Mae seibiannau prydau bwyd yn galluogi myfyrwyr i fwynhau prydau mewn modd tawel, cymdeithasol, pleserus a hamddenol.

Yn ogystal, ymgynghorir â rhieni a gwarcheidwaid ynghylch prydau ysgol a byrbrydau.



## Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu â:

### Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

Cymru fwy cyfartal

Cymru fwy ffyniannus

Cymru iachach

### Gwaith Llywodraeth Cymru:

Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd Bwyd a diodydd mewn ysgolion

### Gwaith ICC

Cwmpasu prydau ysgol am ddim i bawb

## Canfyddiadau Allweddol

# Mewn ffocws: **Iechyd a Llesiant Meddwl Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches**

## Cyflwyniad

Mae iechyd meddwl ffoaduriaid, ceiswyr lloches a phobl sydd wedi'u dadleoli'n orfodol yn waeth na'r boblogaeth gyffredinol a gall effeithio ar eu gweithrediad a'u gallu i ofalu amdanynt eu hunain neu eu teuluoedd.

Mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn parhau ymhlith aelodau mwyaf bregus cymdeithas ac yn aml yn wynebu amodau byw, tai ac amodau gwaith gwael, gan gynnwys:

- heriau ariannol mewn perthynas â thrafnidiaeth a gofal plant
- diweithdra ac amodau economaidd-gymdeithasol gwael
- profi profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs)

Mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cyfrannu'n gadarnhaol i gymdeithas, y gellir ei wella gan:

- sicrhau eu bod mewn iechyd corfforol a meddyliol da
- diogelu iechyd meddwl trwy ddarparu gwasanaethau sylfaenol, diogelwch a chymorth cymdeithasol

> **"The best way to improve the mental health of refugees is to find lasting solutions to the crises they are fleeing. ...it is the right of every refugee to be able to access appropriate care and support."**
> (Sajjad Malik, UNHCR)
>
> Refugees need better mental health support amid rising displacement | UNHCR UK

Mae'r heriau mae mudwyr yn eu hwynebu wrth gael mynediad i wasanaethau iechyd meddwl yn cynnwys:

- Materion ymarferol: rhwystrau iaith, diffyg gwybodaeth, anawsterau cyrchu gwasanaethau, costau uchel ac arosiadau hir
- Materion cymdeithasol a diwylliannol: stigma ynghylch heriau a thabŵs iechyd meddwl, diffyg ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl, diffyg ymddiriedaeth mewn darparwyr gwasanaethau ac anfanteision economaidd-gymdeithasol


Dylid mynd i'r afael ag anghenion iechyd meddwl ffoaduriaid a cheiswyr lloches drwy:

- trefnu rhaglenni hyrwyddo ac ataliaeth cynhwysol a hygyrch
- cryfhau iechyd meddwl fel rhan o wasanaethau cyffredinol
- sicrhau diagnosis, triniaeth ac adsefydlu amserol
- integreiddio iechyd meddwl mewn gofal iechyd sylfaenol

Mae dulliau rhyngwladol o integreiddio yn cynnwys:

- Mae'r Mynegai Polisi Integreiddio Mudwyr (MIPEX) yn asesu polisïau ar draws wyth maes: symudedd y farchnad lafur; addysg; cyfranogiad gwleidyddol, mynediad i genedligrwydd, aduniad teuluol; iechyd; preswylfa barhaol; a gwrth-wahaniaethu
- Cynnwys gwasanaethau ac ymyriadau penodol/wedi'u teilwra mewn strategaethau a pholisïau cenedlaethol ac iechyd perthnasol
- Adeiladu partneriaethau strategol a meithrin gallu ar draws Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a gwasanaethau cyhoeddus eraill

## Golwg ar wlad



### Gweriniaeth Iwerddon


Mae cyfalaf cymdeithasol yn cyfrannu at iechyd ac ansawdd bywyd a gall amddiffyn a gwella iechyd a llesiant ffoaduriaid a cheiswyr lloches trwy:

- bondio ag unigolion â dynodwyr cyffredin
- pontio drwy sefydliadau, megis ysgolion, gweithleoedd a chlybiau
- cysylltiadau cymdeithasol a rhwydweithiau cymdeithasol



Mae Healthy Ireland yn gweithio mewn partneriaeth â llywodraeth leol a chymunedau drwy'r Rhaglen Sláintecare Healthy Communities a'r fenter Healthy Cities and Counties i gefnogi ffoaduriaid o Wcrain i adeiladu bywydau iach.

- Mae rhai prosiectau yn canolbwyntio ar gefnogi integreiddio i'r gymuned leol
- Mae rhai prosiectau yn canolbwyntio ar weithgarwch corfforol a symud
- Mae rhai prosiectau yn cynnig ymyriadau therapiwtig i ddarparu cymorth i ymdopi â thrawma rhyfel a dadleoli



### Yr Almaen

Mae integreddio addysg a'r farchnad lafur yn darparu ffynonellau o strwythur a gwrthdyniad, gan gynorthwyo pobl ifanc i gael rheolaeth drwy symudiad gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol.



Mae awdurdodau'r Almaen yn cynyddu llythrennedd iechyd o fewn cymunedau mudol trwy'r rhaglen "With Migrants for Migrants – Intercultural Health in Germany", sy'n recriwtio, hyfforddi a chefnogi cyfryngwyr rhyngddiwylliannol i addysgu ar system iechyd yr Almaen a phynciau iechyd cysylltiedig.

Mae'r llywodraeth yn darparu cyrsiau Almaeneg am ddim i unigolion sy'n cael lloches. Mae sefydliadau cymdeithas sifil yn llenwi'r bwlch cyn y rhoddir lloches, gan agor cyrsiau i breswylwyr mewn tai dros dro.

Mae llawer o brifysgolion yn caniatáu i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr o gefndir ffoaduriaid astudio eu cyrsiau paratoi iaith am ddim.

### Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu â:

**Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**

- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru o Gymunedau Cydlynus
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

**Gwaith Llywodraeth Cymru:**

Cynllun Cenedl Noddfa Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches (llyw.cymru)

**Gwaith ICC**

Profiadau Iechyd Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid yng Nghymru Adroddiad Technegol

Profiadau Iechyd Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid yng Nghymru: Pa mor dda y bodlonir anghenion dehongli?

## Canfyddiadau Allweddol

Lawrlwytho'r adroddiad

# Mewn ffocws: **Pum Amod Hanfodol ar gyfer Tegwch Iechyd**

## Tegwch iechyd a dulliau o leihau annhegwch iechyd

Gellir osgoi annhegwch iechyd - maent yn cael eu creu gan brosesau strwythurol a gwleidyddol a phenderfyniadau sy'n effeithio ar amodau byw bob dydd pobl a phoblogaethau.

Mae'r Penderfynyddion Cymdeithasol Iechyd (SDOH) yn bennaf gyfrifol am annhegwch iechyd - dyma'r amodau lle mae pobl yn cael eu geni, yn tyfu, yn byw, yn gweithio ac yn heneiddio ynddynt.

Mae gan annhegwch iechyd gostau unigol, cymdeithasol ac economaidd sylweddol a gall leihau twf economaidd, draenio adnoddau aelwydydd a gyrru teuluoedd i dlodi.

Gellir lleihau annhegwch iechyd trwy gyfuniad o bolisïau ac ymyriadau ar draws pob SDOH a lefel y llywodraeth.

Fframwaith Pum Amod Hanfodol Sefydliad Iechyd y Byd (WHO)
Mae hwn yn bolisi aml-sector arloesol sy'n seiliedig ar hawliau a thystiolaeth, gan anelu at fynd i'r afael â bylchau iechyd cymhleth a pharhaus, cyflymu camau gweithredu a chynyddu cyfleoedd i gyflawni bywydau iach, llewyrchus i bawb, heb adael neb ar ôl.

**"Why treat people and send them back to the conditions that made them sick?"** Syr Michael Marmot, Sefydliad Tegwch Iechyd Coleg Prifysgol Llundain

Marmot M. The Health Gap: The Challenge of an Unequal World. Llundain: Bloomsbury Publishing; 2015

Mae'r amodau hanfodol yn gorgyffwrdd ac yn rhyng-gysylltiedig, sy'n amlygu'r angen am ddull traws-sector a systemau i fynd i'r afael ag annhegwch iechyd.

**1. Iechyd a gwasanaethau iechyd**
Efallai y bydd polisïau i leihau annhegwch iechyd yn canolbwyntio ar gwmpas iechyd cyffredinol a mynediad cyffredinol i wasanaethau o ansawdd.


**2. Iechyd a diogelwch incwm a diogelu cymdeithasol**
Gall polisïau i leihau annhegwch ganolbwyntio ar bensiynau, cymorth i deuluoedd (fel gofal plant a chinio ysgol gynradd am ddim i bawb) a chymorth ariannol ar gyfer afiechyd a diweithdra (fel, absenoldeb salwch â thâl ac incwm sylfaenol cyffredinol).

**3. Iechyd ac amodau byw**
Gall polisïau i leihau annhegwch (iechyd) ganolbwyntio ar dai fforddiadwy a diogel, cynllunio gofodol, mannau gwyrdd, ac aer glân.

**4. Iechyd a chyfalaf cymdeithasol a dynol**
Gall polisïau i leihau annhegwch (iechyd) ganolbwyntio ar addysg a sgiliau, cydnerthedd cymdeithasol a grymuso, ac ymdeimlad o berthyn.

**5. Iechyd a chyflogaeth ac amodau gwaith**
Gall polisïau i leihau annhegwch (iechyd) ganolbwyntio ar wella effaith iechyd cyflogaeth, amodau gwaith, a chydraddoldeb yn y gweithle (megis, argaeledd gwaith, cyflog byw, gofynion corfforol a meddyliol, sicrhau iechyd a diogelwch yn y gwaith).

## Golwg ar wlad



## Seland Newydd



Mae'r hawl i dai digonol yn rhwymedigaeth a adlewyrchir mewn deddfau a pholisïau cenedlaethol.

Mae'r Rheoliadau Tenantiaethau Preswyl (Safonau Cartrefi Iach) 2019, yn gosod safonau gofynnol o breswyledd (ee, inswleiddio, awyru a gwresogi) mewn unedau tai rhent.


- Roedd dadansoddiad cost a budd yn amcangyfrif y manteision yn ymwneud â gostyngiadau i denantiaid mewn costau ynni a gwell iechyd, yn ogystal â'r buddion amgylcheddol oherwydd gostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr

Ers 2013, mae'r Fenter Cartrefi Iach (HHI) wedi cefnogi teuluoedd â phlant â chyflyrau iechyd penodol neu fenywod beichiog.

- Mae darparwyr HHI yn cynnal asesiad tai i ymgeiswyr a'u helpu i ddefnyddio ymyriadau i gael mynediad i gartrefi cynhesach, sychach ac iachach
- Mae'r gwasanaeth hwn wedi helpu i atal derbyniadau i'r ysbyty, ymweliadau â meddygon teulu, a dosraniadau fferyllol.

## Canada

Yn 2018, roedd menywod yn cyfrif am 9% yn unig o brentisiaid, ac roedd tua hanner yn y crefftau tâl isel, fel steilydd gwallt, cogydd, neu bobydd.




- Mae rhwystrau yn cynnwys stereoteipiau ynghylch normau rhywedd, gwahaniaethu yn y gweithle, absenoldeb mentoriaid a modelau rôl, diffyg cyfleusterau i fenywod, a gweithleoedd digroeso.

Mae'r Rhaglen STAR yn darparu $10 miliwn (£7.91 miliwn) yn flynyddol i annog y rhai sy'n wynebu rhwystrau i archwilio a pharatoi ar gyfer gyrfaoedd yn y crefftau medrus.

- Ei nod yw codi ymwybyddiaeth o'r crefftau fel gyrfaoedd hyfyw o ansawdd uchel, a helpu i roi'r sgiliau a'r gefnogaeth sydd eu hangen ar unigolion i ddilyn gyrfa yn y crefftau medrus.
- Roedd 15%-25% o'r cyfranogwyr yn bwriadu parhau â hyfforddiant prentisiaeth a chofrestru mewn rhaglen brentisiaeth; roedd 5%-10% o gyfranogwyr yn bwriadu mynd i mewn i grefft.

## Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu â:

### Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

- Cymru fwy cyfartal
- Cymru fwy ffyniannus
- Cymru iachach
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru gydnerth

### Gwaith Llywodraeth Cymru:

WG42004 Cymru Fwy Cyfartal Deddf Cydraddoldeb Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol 2010 (llyw.cymru)

### Gwaith ICC

Menter Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru (WHESRi)

Platfform Datrysiadau Tegwch Iechyd Cymru

## Canfyddiadau Allweddol

# Mewn ffocws: **Gwreiddio Atal mewn Gofal Sylfaenol a Chymunedol**

## Gofal Sylfaenol a Chymunedol

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn diffinio Gofal Sylfaenol a Chymunedol (PCC) fel gwasanaethau gofal iechyd y mae pobl yn aml yn eu derbyn yn gyntaf, gan ddarparu mynediad i ystod o wasanaethau i helpu i ddiwallu eu hanghenion iechyd a llesiant, a'u grymuso i ofalu am eu hiechyd eu hunain.

Gall PCC gryfhau gwytnwch systemau iechyd i baratoi ar gyfer siociau ac argyfyngau, ymateb iddynt a gwella ohonynt.

### Gwreiddio Atal mewn Gofal Sylfaenol



Mae Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yn ysgogi ymrwymiad byd-eang i gryfhau a buddsoddi yn AGS – hyrwyddo gweithredu aml-sector, grymuso cymunedau lleol, prif ffrydio iechyd ym mhob polisi, gwella capasiti a seilwaith, gan flaenoriaethu swyddogaethau iechyd y cyhoedd hanfodol ar draws cwrs bywyd.

Mae integreiddio a chydlynu gofal yn cefnogi'r person cyfan er mwyn gwella parhad, lleihau darnio a chyflawni canlyniadau da; ac mae'n gofyn am chwalu rhwystrau traddodiadol rhwng darparwyr, gwasanaethau, sectorau a rhaglenni.

Mae dull system gyfan a strategaethau ail-fuddsoddi yn hanfodol i atal creu bwlch pontio yn y gwasanaethau a ddarperir.

### Camau Gweithredu a Dysgu Seiliedig ar Atebion

Mae elfennau craidd strategaethau integreiddio llwyddiannus yn cynnwys:

- poblogaethau a ddiffiniwyd
- cymhellion ariannol wedi'u halinio
- rhannu atebolrwydd am berfformiad gan ddefnyddio data ac adrodd
- canllawiau i hyrwyddo arfer gorau a lleihau amrywiadau
- partneriaethau meddygon-rheolwyr
- arweinyddiaeth effeithiol a diwylliant cydweithredol, gan hwyluso gwaith tîm
- ymgysylltu â chleifion a gofalwyr gan alluogi gwneud penderfyniadau ar y cyd a hunanofal

Mae partneriaethau traws-sector gydag awdurdodau lleol, cymunedau, y sector gwirfoddol, a phartneriaid masnachol yn galluogi darpariaeth atal yn gynt yn y broses, megis trwy ragnodi cymdeithasol.

Mae hyrwyddo PCC fel gyrfa ddeniadol ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol yn cynnwys gwelliannau i addysg feddygol, amodau gwaith a thâl, modelau CSP ac integreiddio gwasanaeth, cynllunio'r gweithlu.

Mae cynnal practisau PCC sy'n gweithredu'n dda ac sydd ag adnoddau da - gan sefydlu cyfleusterau gofal cymunedol, ymestyn rhaglenni yn y cartref, ehangu rôl gweithwyr PCC a chynyddu telefeddygaeth yn allweddol i leihau oedi a gofal wedi'i hepgor i bawb.

> **"There has never been a clearer need to invest in and plan for better integration of primary and community healthcare, alongside an expanded, better resourced, and appropriately trained multidisciplinary public health workforce."**
>
> (Lopes et al., 2022) Invest in Primary Health Care and Public Health for the Pandemic and Beyond: Datganaid ASPHER

## Golwg ar wlad



### Brasil

Strategaeth Iechyd Teulu Brasil yw un o'r rhaglenni PCC cymunedol mwyaf yn y byd.

Mae'n pwysleisio gofal iechyd mewn cyfleusterau iechyd cymunedol ac yn y cartref i boblogaeth leol ddiffiniedig gan ddefnyddio Timau Iechyd Teuluol.

Mae Gweithwyr Iechyd Cymunedol yn asesu anghenion y gymuned, gan ddatblygu perthnasoedd ymddiriedus gyda'r cartrefi, ac yn gweithio gyda'r tîm PCC lleol i sicrhau bod unrhyw faterion iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu datrys yn gyflym.



**Gostyngodd marwolaethau oherwydd clefyd cardiofasgwlaidd 34%**



**Gostyngodd marwolaethau oherwydd strôc 18%**

- Gostyngodd cyfraddau marwolaethau babanod o 114 o farwolaethau fesul 1,000 o enedigaethau byw (1975) i 19 o farwolaethau fesul 1,000 o enedigaethau byw (2007); cynyddodd y disgwyliad oes o 52 mlynedd (1970) i 73 mlynedd (2008)

### Slofenia

Mae dull PCC Slofenia yn darparu gofal iechyd integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn trwy ymdrechion cydweithredol timau aml-broffesiwn.

Mae practisau aml-broffesiwn yn galluogi gwell cydlynu gofal ac yn cymryd rhan ragweithiol mewn gofal ataliol a rheoli clefydau cronig.

Mae Canolfannau Hybu Iechyd yn annog ffyrdd iach o fyw ac yn mynd i'r afael â ffactorau risg y gellir eu haddasu megis diet nad yw'n iach.

Yn ystod pandemig COVID-19, roedd Slofenia yn un o ychydig o wledydd a oedd yn dibynnu ar bractisau tîm aml-broffesiwn i gynnal parhad gofal i bobl.

Mae angen heb ei ddiwallu am archwiliad meddygol yn yn 2022, nododd 0.1% neu lai o oedolion yn adrodd am angen heb ei ddiwallu oherwydd cost, amser teithio neu bellter teithio yn y drefn honno, o gymharu â 3.6% yn nodi angen heb ei ddiwallu oherwydd amseroedd aros.

### Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu â:

**Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**

Cymru iachach

Cymru fwy cyfartal

**Gwaith Llywodraeth Cymru:**

Cymru Iachach: cynllun hir dymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol | LLYW.CYMRU

**Gwaith ICC**

Adran Gofal Sylfaenol Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)

Rhaglen Strategol - Gofal Sylfaenol Un (gig.cymru)

Model Gofal Sylfaenol i Gymru - Gofal Sylfaenol Un (gig.cymru)

Rhagnodi Cymdeithasol Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)

Lawrlwytho'r adroddiad

## Canfyddiadau Allweddol

# Mewn ffocws: **Effaith Tlodi ar Fabanod, Plant a Phobl Ifanc**

## Tlodi, Iechyd a Llesiant

**Yn fyd-eang, mae un o bob pump (333 miliwn) o blant yn byw mewn tlodi eithafol.**



**Roedd 2.46 miliwn o blant 0-15 oed yn profi tlodi incwm cymharol yn y DU yn 2022.**

Ledled y byd, mae'r plant tlotaf ddwywaith yn fwy tebygol o farw na'u cyfoedion cyfoethocach.

Mae tlodi yn ystod plentyndod cynnar yn gysylltiedig â:

- mwy o dueddiad i asthma, feirysau, gordewdra ac iechyd meddwl gwael
- gostyngiadau mewn perfformiad gwybyddol ar draws llawer o feysydd, yn enwedig swyddogaeth iaith a rheolaeth wybyddol (sylw, cynllunio, gwneud penderfyniadau)
- cyrhaeddiad addysgol is
- risg uwch o ddod i gysylltiad â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs)
- tueddiad uwch i glefyd y galon a rhai mathau o ganser yn ddiweddarach mewn bywyd
- canlyniadau economaidd-gymdeithasol ac iechyd meddwl gwaeth yn ddiweddarach mewn bywyd
- safonau byw gwael, llai o sgiliau a chyflogau is pan yn oedolion.

### Gweithredu Seiliedig ar Ddatrysiadau

Mae natur drawsbynciol tlodi plant yn golygu bod angen dull aml-asiantaeth a dealltwriaeth a rennir o niwed.

Mae ymyrraeth gynnar ac atal yn hanfodol ar gyfer datblygu polisïau effeithiol ac effeithlon ac mae'n rhaid i gamau blaenoriaeth fynd i'r afael â hyn nawr ac yn y tymor hwy.

Strategaethau integredig sy'n cyfuno cymorth i rieni i gael mynediad i'r farchnad lafur â chymorth incwm digonol, a mynediad at wasanaethau sy'n hanfodol i ganlyniadau plant, sydd fwyaf effeithiol.

Polisïau sy'n gwella llesiant pob plentyn, tra'n rhoi ystyriaeth ofalus i blant mewn sefyllfaoedd bregus, sydd fwyaf llwyddiannus.

### Cymorth Ariannol



Mae polisïau cymorth ariannol yn cynnwys trosglwyddiadau arian parod a budd-daliadau plant cyffredinol. Gall incwm digonol helpu teuluoedd i: osgoi straen; cyrchu profiadau, adnoddau materol a chyfleoedd ac gyfer bywyd iach; a mabwysiadu a chynnal ymddygiad iach.

### Cymorth Cymdeithasol

Mae cymorth cymdeithasol i rieni yn hanfodol i helpu teuluoedd i fynd ar ôl y cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i adeiladu dyfodol gwell i'w plant.

Mae polisïau amddiffyn cymdeithasol yn cynnwys: grantiau plant; addysg a gofal plant cynnar; prydau ysgol am ddim; datblygu sgiliau.

### Lleihau Stigma

Mae mynd i'r afael â stigma sy'n gysylltiedig â thlodi yn hollbwysig i sicrhau effeithiolrwydd polisïau a mentrau sy'n targedu tlodi.

Yng nghyd-destun adnoddau cyfyngedig, gall canolbwyntio ar ddimensiynau seico-gymdeithasol tlodi, fel stigma, fod yn ffordd effeithiol o leihau'r niwed a chefnogi pobl allan o dlodi.

> **"Falling into poverty during childhood can have lasting effects. Rarely does a child get a second chance at an education or a healthy start in life"**
>
> (UNICEF) Universal child benefits | UNICEF

## Golwg ar wlad

### Yr Alban

Mae deddfwriaeth genedlaethol yn cynnwys targedau i sicrhau y caiff canlyniadau eu gweithredu a'u monitro'n effeithiol.

Mae Deddf Tlodi Plant (Yr Alban) 2017 wedi arwain at sawl canlyniad cadarnhaol yn ymwneud â thlodi, iechyd a llesiant

Mae Taliad Plant yr Alban yn fudd-dal sy'n targedu teuluoedd incwm isel gyda phlant o dan 16 oed.

- Mae modelu yn awgrymu y bydd yn lleihau'r gyfradd tlodi plant gymharol yn yr Alban tua phum pwynt canran yn 2023-24, gan godi tua 50,000 o blant allan o dlodi.

Mae polisïau lleol wedi targedu poblogaethau sydd mewn perygl.

- Mae'r rhaglen Maternity Matters yn darparu cymorth ariannol a llesiant i famau i atal a lleihau tlodi ymhlith plant o dan flwydd oed.


### Slofenia

Mae polisïau Slofenia yn brwydro yn erbyn tlodi plant yn canolbwyntio ar ofal plant wedi'i gysoni ac amddiffyn cymdeithasol, gan gynnwys: buddsoddi mewn addysg, iechyd a maeth; a gweithredu diwygiadau i'r farchnad lafur.

Mae'r Llywodraeth yn gweithredu'n benodol ym meysydd budd-daliadau arian parod, gan fynd i'r afael â chychwyn a gwella'r mesurau ariannol hyn i gefnogi teuluoedd mewn amrywiol ffurfiau, yn cynnwys:

- Grant geni
- Lwfans rhiant
- Budd-dal plant
- Lwfans plant anghenion arbennig
- Cefnogaeth i deuluoedd mawr
- Gostyngiadau ar ffioedd meithrinfa

Roedd teuluoedd a phlant sy'n derbyn cymorth ariannol yn Slofenia yn gysylltiedig â chynnydd yn y tebygolrwydd o ddianc rhag tlodi, o bron i 30 pwynt canran.



### Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu â:

**Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**

Cymru fwy cyfartal

Cymru fwy ffyniannus

Cymru iachach

**Gwaith Llywodraeth Cymru:**

Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024 [HTML] | LLYW.CYMRU

**Gwaith ICC**

Plant a'r argyfwng costau byw yng Nghymru

# Effaith

## Derbynwyr, Agoriadau, Cliciau

**Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, WHO CC Gweithgarwch MailChimp Ymgysylltu**


| Cyfanswm y Derbynwyr | Cliciau Unigryw | Agoriadau Unigryw |
|---|---|---|
| 2771 | 211 | 506 |

Hidlo yn ôl Cyhoeddiad: Dewisiadau lluosog

Hidlo yn ôl Tîm: Iechyd Rhyngwladol

Hidlo yn ôl Dyddiad Cyhoeddi: Pob un

Hidlo yn ôl Dyddiad Anfon: Dewisiadau lluosog




Ymweliadau â '**https://phwwhocc.co.uk/**' 'Defnyddwyr' a bennir gan gwci porwr unigryw. sy'n golygu y bydd rhywun sy'n ymweld â'ch gwefan ar ddyfeisiau lluosog (pob un â'i gwci porwr ei hun) yn golygu bod mwy nag un defnyddiwr yn cael ei adrodd.


# Edrychiadau

## Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Adroddiad Misol Cyhoeddiadau WHO CC

| Nifer yr Edrychiadau | Nifer y Defnyddwyr | Edrychiadau Cyf Fesul Defnyddiwr | Cyfnod Ymgysylltu Cyf (Mun) |
|---|---|---|---|
| 778 | 536 | 1.68 | 24.09 |


Tîm: Iechyd Rhyngwladol
Cyfnod Adrodd: Pob un
Cyfnod Cyhoeddi: Dewisiadau lluosog
Iaith: Pob un

Dim Edrychiadau yn ôl Teitl a Dadansoddeg_Cyfnod_Adrodd




Ymweliadau â **'https://phwwhocc.co.uk/Resources/'** google analytics yn gysylltiedig â chofnod Project Radar

## Gwledydd a amlygwyd (fel nodweddion neu mewn astudiaethau achos)



| Gwlad | Nifer y sylwadau |
|---|---|
| Brasil | 2 |
| Slofenia | 2 |
| Yr Alban | 3 |
| Gweriniaeth Iwerddon | 2 |
| Seland Newydd | 2 |
| Cuba | 1 |
| Japan | 1 |
| Awstralia | 1 |
| Y Ffindir | 3 |
| Unol Daleithiau | 3 |
| Gwlad Belg | 1 |
| Yr Almaen | 1 |
| Yr Eidal | 1 |
| Bangladesh | 1 |
| Sbaen | 2 |
| Costa Rica | 1 |
| Canada | 1 |
| Iseldiroedd | 1 |
| Sweden | 2 |
| Gogledd Iwerddon | 1 |
| Twrci | 1 |
| Lesotho | 1 |
| Portiwgal | 1 |

Mae'r adroddiadau Sganio a Dysgu Gorwelion Rhyngwladol yn cael eu datblygu gan y Tîm Iechyd Rhyngwladol / y Ganolfan Cydlynu Iechyd Ryngwladol (IHCC) yng Iechyd a Pholisi Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant (PIH WHO CC), Iechyd Cyhoeddus Cymru.


Cyfarwyddwr Cenedlaethol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, WHO CC: **Sumina Azam**

Arweinydd iechyd rhyngwladol a Dirprwy Gyfarwyddwr WHO CC: **Mariana Dyakova**

Awduron: **Leah Silva, Daniela Stewart, Zuwaira Hashim, Lauren Couzens, Rachel Bennett, Georgia Saye, Sara Cooklin-Urbano, Rhiannon Griffiths, Abigail Malcolm, Emily Clark, Jo Peden**



Diolch yn arbennig i'r bobl ganlynol a gyfrannodd at ddatblygu'r adroddiadau:
**Andrews (ICC), Chris Brown (WHO), Amrita Jesurasa (ICC), Diane Kirkland (ICC), Gill Richardson (ICC), Manon Roberts (ICC), Kyana Maaf Roodpishi (Prifysgol Caerdydd), Lili Thom (Prifysgol Caerdydd), Nicole Valentine (WHO), Zoe Wallace (ICC)**


**phwwhocc.co.uk**

@phwwhocc
/Phwwhocc

Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant

World Health Organization Collaborating Centre on Investment for Health and Well-being